

## **PRIFFYRDD, CYMRU**

**2013 RHIF. 12**

### **DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

#### **GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (HEN IARD GYCHOD DICKIES, FFORDD GARTH, BANGOR, GWYNEDD) 2013**

*Gwnaed* 21 Mai 2013

*Yn dod i rym* 30 Mai 2013

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 249 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990<sup>(1)</sup> (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1990”).

#### **Enwi, Dehongli a Chychwyn**

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dileu Hawliau i Gerbydau (Hen Iard Gychod Dickies, Ffordd Garth, Bangor, Gwynedd) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:- ystyr “y plan a adneuwyd” (“*the deposited plan*”) yw'r plan sy'n dwyn yr enw “Gorchymyn Dileu Hawliau i Gerbydau (Hen Iard Gychod Dickies, Ffordd Garth, Bangor, Gwynedd) 2013” sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

#### **Dileu Hawliau i Gerbydau**

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn, mae unrhyw hawl tramwy a all fod gan unrhyw berson i ddefnyddio cerbydau ar y rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir ag ymyl du ar y plan a adneuwyd drwy hyn wedi ei dileu o'r dyddiad y daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol.

3. Er gwaethaf darpariaethau erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn, caniateir defnyddio cerbydau ar y cyfryw briffordd yn yr achosion a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Mai 2013

*R Morgan*

**R MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

- (1) 1980 c.8. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.

**YR ATODLENNI**

**ATODLEN 1**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Disgrifiad o'r rhan o briffordd y mae hawliau i gerbydau drosti i'w dileu o dan y Gorchymyn hwn**

Y darn hwnnw o'r gilffordd a elwir yn gilffordd gyhoeddus rhif 29 yn Ninas Bangor, sy'n ymestyn o'i chyffordd â Lôn Glan Môr hyd at bwynt 60 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno. Mae'r gilffordd sydd i'w throsi yn ymestyn o bwynt A hyd at bwynt B ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**

**Yr achosion pan ganiateir i gerbydau ddefnyddio'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn**

- i. At ddibenion yr Heddlu, y Frigâd Dân neu'r Gwasanaeth Ambiwlans.
- ii. Ar ran ymgymerydd statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus sy'n ymwneud â gosod, codi, arolygu, cynnal a chadw, addasu, atgyweirio, adnewyddu neu dynnu unrhyw brif bibell, pibell, sianel, gwifren, cebl neu gyfarpar arall ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr, trydan neu signal telathrebu o dan y priffyrdd, ynddynt, arnynt, ar eu hyd neu ar eu traws neu o dan unrhyw dir sy'n gyfagos i'r priffyrdd, ynddo, arno, ar ei hyd neu ar ei draws.

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN DILEU HAWLIAU I  
GERBYDAU (HEN IARD GYCHOD DICKIES,  
FFORDD GARTH, BANGOR, GWYNEDD)  
2013**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru, yn dilyn penderfyniad Cyngor Gwynedd i wella

amwynder yr ardal, wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 249 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Diben y Gorchymyn yw awdurdodi dileu hawliau i gerbydau dros y rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Mae dileu'r hawliau yn ddarostyngedig i eithriadau penodol a restrir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod y cyfnod o chwe wythnos o 30 Mai 2013, gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor, Gwynedd LL57 1DT neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod, gan ddyfynnu cyfeirnod Llywodraeth Cymru qA1043064.

Os caiff person ei dramgwyddo gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. na chydymffurfiwyd â gofyniad gweithdrefnol yn y Ddeddf;

caiff y person hwnnw, cyn pen chwe wythnos o 30 Mai 2013, wneud cais at y diben i'r Uchel Lys.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn, y plan a adneuwyd a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk) (Detholer: Deddfwriaeth / Is-ddeddfwriaeth / Offerynnau Anstatudol / Trafnidiaeth, Cymru / Gorchymynion Cau TCPA / 2013).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

*M D Burnell*

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

## **YR ATODLENNI**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

### **ATODLEN 1**

**Disgrifiad o'r rhan o briffordd y mae hawliau i gerbydau drosti i'w dileu o dan y Gorchymyn hwn**

Y darn hwnnw o'r gilffordd a elwir yn gilffordd

gyhoeddus rhif 29 yn Ninas Bangor, sy'n ymestyn o'i chyffordd â Lôn Glan Môr hyd at bwynt 60 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno. Mae'r gilffordd sydd i'w throsi yn ymestyn o bwynt A hyd at bwynt B ar y plan a adnewwyd.

## ATODLEN 2

### **Yr achosion pan ganiateir i gerbydau ddefnyddio'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn**

- i. At ddibenion yr Heddlu, y Frigâd Dân neu'r Gwasanaeth Ambiwlans.
- ii. Ar ran ymgymerydd statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus sy'n ymwneud â gosod, codi, arolygu, cynnal a chadw, addasu, atgyweirio, adnewyddu neu dynnu unrhyw brif bibell, pibell, sianel, gwifren, cebl neu gyfarpar arall ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr, trydan neu signal telathrebu o dan y priffyrdd, ynddynt, arnynt, ar eu hyd neu ar eu traws neu o dan unrhyw dir sy'n gyfagos i'r priffyrdd, ynddo, arno, ar ei hyd neu ar ei draws.